

## Group discussion

### Agreeing and disagreeing

- Hannah      Yn fy marn i, gordewdra ydy un o'r prif broblemau heddiw achos dydy pobl ddim yn gwybod sut i fwyta'n iach.
- Sam            Dw i'n cytuno gyda ti achos mae mwy a mwy o bobl yn bwyta prydau parod yn lle ffrwythau a llysiau ffres.
- Matt           Rwyd ti'n iawn, Sam. Dw i'n cytuno gyda ti. Hefyd, mae llawer o bobl ifanc yn bwyta bwyd afiach fel siocled a chreision yn rhy aml.
- Hannah      Dw i'n credu dylai pawb fwyta diet cytbwys er mwyn osgoi problemau iechyd. Ond mae'n anodd achos mae bwyd afiach yn fwy blasus na ffrwythau a llysiau.
- Lucy           Dw i'n cytuno gyda ti, Hannah.
- Sam            Dw i'n anghytuno gyda chi, Hannah a Lucy. Mae ffrwythau a llysiau'n flasus iawn.
- Hannah      Wel, dw i'n meddwl bod siocled yn fwy blasus nag afalau. Wyt ti'n cytuno, Matt?
- Matt           Ydw a nac ydw. Mae rhai bwydydd cyflym yn flasus ond mae rhai yn ofnadwy.